CYNLLUN CREU LLEOEDD CANOL WRECSAM

BETH YW'R CYNLLUN CREU LLEOEDD?

Diben y Cynllun Creu Lleoedd yw gwella canol Wrecsam ac annog pobl i ail-feddwl am y ffordd y mae'n edrych, teimlo a gweithio, a dylanwadu ar hynny. Yn benodol, mae arnom eisiau i'r cynllun hyrwyddo dyluniad a datblygiad gwell a helpu i sefydlu defnydd a gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd mwy deniadol.

Bydd fersiwn derfynol y Cynllun yn cynnwys cynllun cyflawni cynhwysfawr fydd yn adlewyrchu gwaith ymgynghori a chyfranogi ehangach. Bydd yn cynnwys blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid a nodi lefel a ffynonellau'r cyllid a strwythurau llywodraethu fydd yn llywio darpariaeth y Cynllun.

Ym mis Mehefin 2022, llofnododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Siarter Creu Lleoedd Cymru. Rydym yn defnyddio egwyddorion y Siarter ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol ac maent yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni ein huchelgeisiau o ddod yn Ddinas Diwylliant y DU a chynlluniau eraill megis y Cynllun Rheoli Cyrchfannau, yr Uwchgynllun Safle Treftadaeth y Byd, Strategaeth Tai y Cyngor, y Cynllun Teithio Llesol a'r Cynllun Digidol sydd ar y gweill.

PAM YDYN NI'N GWNEUD HYN?

Mae gan Wrecsam hunaniaeth unigryw a balch. Ar hyn o bryd, mae'n un o'r lleoedd sy'n cael ei drafod fwyaf yn y DU ac mae ei broffil rhyngwladol yn tyfu. Mae ein twf a'n huchelgais wedi codi'n sylweddol wedi i Statws Dinas gael ei ddyfarnu i'r Fwrdeistref Sirol gyfan, ar ôl llwyddo i gyrraedd cam terfynol Dinas Diwylliant 2025, ac mae pwyslais byd-eang ar Wrecsam wedi i Glwb Pêl-droed Wrecsam gael ei brynu gan sêr Hollywood a'u llwyddiant diweddar. Mae hyn wedi arwain at fwy o gyfleoedd a diddordeb mewn buddsoddi yn Wrecsam ac mae wedi rhoi hwb i falchder lleol yng nghanol y ddinas sy'n gwasanaethu'r gymuned gyfan.

SUT CYRHAEDDOM NI YMA?

Dechreuodd y gwaith ymgysylltu yn hydref 2021 gydag ymgynghoriad ar-lein a gweithdai i fudd-ddeiliaid yn trafod creu lleoedd a beth fyddai'n gwneud dinas lwyddiannus. Cawsom lawer o adborth a syniadau am yr hyn oedd yn ganol y dref ar y pryd a pha mor bryderus oedd pobl am ei dyfodol. Ers hynny, cynhaliwyd sawl gweithdy i Swyddogion y Cyngor, budd-ddeiliaid ac Aelodau'r Cyngor i lunio syniadau, cyfleoedd a blaenoriaethau i siapio'r Cynllun.

Rydym yn cydnabod nad yw'r ymgysylltiad hyd yma wedi bod yn gyflawn; o'r herwydd, dim ond ar ffurf drafft mae'r Cynllun ar hyn o bryd ac rydym yn dechrau ar gyfnod o ymgynghori â'r cyhoedd i siapio blaenoriaethau ar gyfer Wrecsam ymhellach.

BETH YDYM NI EISIAU EI WYBOD?

I ddechrau, mae arnom eisiau gwybod faint ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r hyn sydd yn y Cynllun ar hyn o bryd, ac yna mae arnom eisiau eich barn ehangach fel bod y Cynllun mor gynrychioladol â phosibl.

PA ARDAL SY'N CAEL EI CHYNNWYS YNG NGHANOL WRECSAM?

Mae ardal ganolog Wrecsam sy'n cael ei chynnwys yn y Cynllun Creu Lleoedd i'w gweld ar y PDF 'Cynllun Creu Lleoedd'.

PA HERIAU RYDYM NI ANGEN YMDRIN Â NHW?

Yn union fel mae economi ehangach Wrecsam wedi cael ei thrawsnewid dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, mae ar ganol Wrecsam angen mynd drwy gyfnod o drawsnewid hefyd. Mae gwaith eisoes ar y gweill, i ymateb i batrymau gwahanol o ran siopa a byw, ac i ehangu ei asedau diwylliannol, masnachol a chymunedol. Fodd bynnag, mae heriau sylweddol yn wynebu canol y ddinas, ac mae'r strategaethau a phrosiectau arfaethedig a nodir yn y Cynllun yn ceisio ymdrin yn uniongyrchol â nhw.

- Dewis pobl leol i ymweld â pharciau manwerthu y tu allan i'r dref a threfi cyfagos, a gwario mwy o'u harian yno yn hytrach na chanol Wrecsam
- Yr angen am weithgareddau a chyfleusterau newydd a deniadol i ddenu mwy o deuluoedd, myfyrwyr ac aelwydydd sy'n byw mewn cymunedau gwledig anghysbell
- Canfyddiadau a phryderon allanol negyddol am ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae eiddo gwag yn parhau yn her ac mae diffyg hyder ymhlith perchnogion/buddsoddwyr yng nghanol y ddinas
- Mae'r cyfleusterau hamdden a diwylliannol yn weddol fychan a heb eu datblygu ac mae angen economi gryfach gyda'r nos ac o ran adloniant teuluol
- Llai o alw am le mewn swyddfeydd a safle cyflogaeth sy'n lleihau
- Nid yw'r maint na'r math o ddatblygiad preswyl yn y canol wedi arwain at y manteision adfywio a ddymunwyd
- Mae llywio a chanfod y ffordd ar draws y canol yn wael oherwydd bod rhwystrau ar lwybrau cerddwyr a beicwyr, maent yn wrthgynhyrchiol ac yn flêr
- Nid yw gwerth na photensial adeiladau a'r amgylchedd hanesyddol wedi cael eu gwireddu na'u dathlu

GWELEDIGAETH AC AMCANION Y CYNLLUN

Mae'r weledigaeth ar gyfer y canol yn darparu ymateb strategol i'r cyfleoedd a'r heriau a ddynodwyd.

Gweledigaeth – Bydd y Cynllun Creu Lleoedd yn helpu Wrecsam i wireddu manteision ei statws dinas yn llawn i greu lle ag arwyddocâd rhanbarthol a

chenedlaethol. Bydd canol y ddinas yn rhywle chwareus, cymdeithasol, difyr a chynhwysol i bawb sy'n byw, gweithio, ymweld a buddsoddi ynddi.

Bydd canol ein dinas:

- Yn ddewis cyntaf i bobl ar draws ardal Wrecsam, fel rhywle i siopa, gweithio, dysgu, a mwynhau diwylliant ac adloniant
- Yn rhywle diogel, cyfforddus a chyfleus i ymweld a symud o gwmpas
- Yn rhywle ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth yn seiliedig ar dreftadaeth, diwylliant ac amgylchedd o ansawdd uchel
- Yn rhywle glân a gaiff ei reoli'n dda, sy'n cynnal digwyddiadau a gweithgareddau cyffrous yn rheolaidd i sefydlu Wrecsam fel prif gyrchfan yn y rhanbarth
- Yn darparu hyder ac annog buddsoddiad gan ddatblygwyr, busnesau a sefydliadau

Tanategir y weledigaeth gan wyth amcan strategol, sydd wrth wraidd ein hagwedd at fuddsoddi a bydd yn ysgogi newid positif drwy weithredu ar y cyd

1. **Amrywiaeth Economaidd** – Creu economi mwy amlbwrpas, mwy pleserus, o ansawdd uchel yn ystod y dydd a'r nos sy'n apelio at bobl sy'n byw, dysgu a gweithio yn Wrecsam.

2. **Y Farchnad Eiddo** – Ailgodi hyder y sector preifat mewn hyfywedd hir dymor ac adenillon buddsoddiadau. Dod yn fwy deniadol na lleoliadau y tu allan i'r dref. Mae'n cynnwys uwch-gynllunio cyfleoedd ailddatblygu mawr ac ailddefnyddio eiddo gwag ar gyfer defnydd newydd a meddianwyr llai.

3. **Cyflogaeth** – Cynyddu nifer y swyddi sydd yn y canol a'u hansawdd drwy annog twf mewn busnesau annibynnol, denu cyflogwyr newydd ac annog mwy o ganolfannau gwaith cymdeithasol, diwylliannol a chyhoeddus cydweithredol.

4. **Byw yn y Canol** – Creu cyfleoedd datblygu preswyl mawr, hyfyw, deiliadaeth gymysg yn darparu poblogaeth fwy amrywiol sy'n cefnogi cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol newydd

5. **Mynediad a Symudiadau** – Sicrhau bod symudiadau cerddwyr yng nghanol y ddinas ac wrth gyrraedd yno yn ddiogel, cyfforddus, cynhwysol, hawdd ei lywio a deniadol

6. **Treflun ac Amgylcheddol** – Gwella'r parth cyhoeddus a mannau agored presennol a chreu rhai newydd i atgyfnerthu synnwyr cydlynol a dilys o hunaniaeth Wrecsam a denu ac annog mwy o ddefnydd cyhoeddus

7. **Cynhwysol a Chymdeithasol** – Gwneud y canol yn fwy cynhwysol a chymdeithasol drwy wneud gwelliannau hygyrch a diwylliannol ar gyfer pob cenhedlaeth

8. **Dinas Ddigidol 'Ddoeth'** – Croesawu'r dull dinasoedd Doeth o greu canol dinas â chysylltiadau digidol gyda dull wedi'i arwain gan ddata at reoli a chefnogi busnesau

FFRAMWAITH GOFODOL

Mae gan ganol Wrecsam gymeriad cyfoethog ac amrywiol, ac i helpu i ddatblygu cynigion, mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn nodi pedair ardal ofodol benodol, bob un wedi'i diffinio gan eu cymeriad trefol, eu prif ddefnydd tir a'u potensial ar gyfer newid. (Gweler Fframwaith Gofodol Cynllun Creu Lleoedd Cymru).

Yr Hen Dref – wedi'i diffinio gan ei threftadaeth, patrwm strydoedd a defnydd tir manwerthu a diwylliannol. Y nod yw dathlu hunaniaeth Wrecsam drwy barhau i wella ac adfer cymeriad y treflun hanesyddol a chreu cyrchfan yng "nghalon hanesyddol" y ddinas.

Y Rhan Ddinesig – wedi'i diffinio gan ei champws agored, gwyrdd a chrynhoad o gyfleusterau dinesig a chyflogaeth. Y nod yw atgyfnerthu cymeriad a swyddogaeth rhan ogleddol canol y ddinas fel 'campws dinesig' - h.y. casgliad o adeiladau sefydliadol o fewn lleoliad a thirwedd agored a deniadol.

Coridor Stryt y Rhaglaw – wedi'i ddiffinio gan ei ffurf linellol a'i gysylltiad â'r orsaf rheilffordd a'r buddsoddiad ym Mhorth Wrecsam. Y nod yw hwyluso esblygiad hirdymor canol y ddinas, drwy sefydlu cyfleoedd ar gyfer ailddatblygu sylweddol, ymestyn ystod amrywiol, dynamig ac amlweddog defnyddiau tir, gan wella cysylltiadau strategol rhwng cyrchfannau a lleoliadau allweddol, a thrwy wella cymeriad y treflun.

Ffrwd Gwenfro – wedi'i diffinio gan ei ffurf drefol dameidiog a safleoedd mawr gwag, neu heb gael eu defnyddio. Y nod yw cefnogi bywyd trefol cynaliadwy ac amrywiol drwy ddatblygu ar safleoedd mawr, er nad ydynt wedi eu cysylltu ar hyn o bryd, ar ffin ddeheuol ardal y canol.

GWEITHGAREDDAU

Mae'r Cynllun Creu Lleoedd yn cynnwys saith gweithgaredd thematig gyda'r posibilrwydd o gynnal y canol cyfan.

1. **Defnydd tir ac eiddo** – y nod yw cynyddu hyder yng nghanol y ddinas fel lle i berchnogion a buddsoddwyr eiddo sector preifat ac i fynd i'r afael â'r adeiladau gwag a'r rhai nad ydynt yn cael eu defnyddio.

    - Grantiau a benthyciadau sy'n annog buddsoddiad sy'n amrywio defnydd, creu eiddo modern o safon ac o faint priodol ac unedau fforddiadwy llai.
    - Ymyriad uniongyrchol gan y sector cyhoeddus i gaffael yr adeiladau gwag pwysicaf a'r rhai a'r effaith fwyaf ac i gasglu safleoedd mwy ar gyfer datblygu.
    - System gynllunio gefnogol sy'n gwneud penderfyniadau cyson a chyflym a digon o hyblygrwydd i annog buddsoddi.
    - Gwybodaeth o ddata – darparu gwybodaeth gyfredol, 'glyfar' i fusnesau a buddsoddwyr am berfformiad, nifer ymwelwyr a phatrwm gwario yng nghanol y ddinas

- Gorfodi – pan fo angen i sicrhau bod perchnogion eiddo yn ailddefnyddio eiddo gwag a rhai sy'n peri problemau

2. **Cymorth i fusnesau a mentrau** – pecyn o gymorth busnes i dyfu ac amrywio'r sail busnes ac annog busnesau newydd ac annibynnol i ddechrau

3. **Rheoli lleoedd** – gweithgareddau sy'n ymdrin â chanfyddiadau negyddol a meithrin balchder lleol a mwy o ddefnydd a gweithgaredd. Ymhlith y cynigion mae brandio lle, gwell rheolaeth stryd amgylcheddol a defnyddio technoleg glyfar i gael dull wedi'i arwain gan ddata at fonitro nifer ymwelwyr, patrymau gwario, amlder ac amser preswylio. Mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen partneriaeth a fforymau newydd sy'n cynnwys arweinwyr, budd-ddeiliaid a busnesau'r ddinas i reoli a gwella canol y ddinas. Mae dichonolrwydd Ardal Gwella Busnes (BID) ar gyfer canol y ddinas yn cael ei archwilio ar hyn o bryd.

4. **Marchnadoedd Traddodiadol** – mae hanes Wrecsam fel tref farchnad yn destun balchder mawr yn lleol ac mae buddsoddiad yn digwydd yn y Farchnad Gyffredinol a'r Farchnad Cigyddion. Mae'r cynigion yn cynnwys archwilio lleoliadau eraill ar gyfer y Farchnad dydd Llun i helpu i greu 'ardal farchnad', mentrau i annog cenhedlaeth newydd o fasnachwyr marchnad i gefnogi profiad siopa "go iawn".

5. **Teithio llesol, cludiant a pharcio** – cefnogi cynigion i wella'r rhwydwaith teithio llesol sy'n helpu'r gwaith o lywio ac ansawdd y profiad i gerddwyr a beicwyr yng nghanol y ddinas a thuag ati. Ac adolygiad o symudiadau cerbydau a'r dull o'u rheoli mewn mannau cyhoeddus i gefnogi gwelliannau yn y parth cyhoeddus a denu'r holl ddefnyddwyr posibl.

6. **Parth cyhoeddus ac isadeiledd gwyrdd** – mae gan ganol y ddinas barth cyhoeddus sydd wedi'i rannu'n dda, sy'n cynnwys strydoedd, sgwariau a pharciau ac ati â chyfleoedd clir ar gyfer gwelliannau penodol i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu, bwyta, ymlacio, cael eich diddanu a gwneud busnes ac ati.

7. **Dinas werdd ac iach** – cynigion sy'n helpu i leihau carbon a chostau ynni. Mae effaith tymor hir a byr costau ynni cynyddol ar fusnesau ac effeithlonrwydd ynni adeiladau yng nghanol y ddinas yn gyfle, ac mae syniadau'n cynnwys archwilio'r posibilrwydd o greu rhwydwaith solar trefol. Byddai canol y ddinas hefyd yn elwa o gael rhwydwaith gynhwysfawr o bwyntiau gwefru i Gerbydau Trydan ac e-feiciau.

ARDALOEDD CYFLAWNI

Mae'r ardaloedd gofodol a'r gweithgareddau yn alwad i weithredu sy'n gyffrous ac yn enfawr. O'u darparu'n unigol, mae pob gweithgaredd yn cynnig mantais sylweddol, fodd bynnag, y brif fantais o ddatblygu gweledigaeth gyfannol drwy'r Cynllun Creu Lleoedd yw y gellir lluosi'r manteision drwy gydlynu nifer o brosiectau gyda'i gilydd.

Drwy grwpio prosiectau mewn clystyrau daearyddol, nodwyd chwe 'Ardal Gyflawni' bosibl. Mae pob ardal yn cyflwyno cyfle i chwarae rôl benodol yn y Cynllun Creu Lleoedd

cyffredinol – ond gyda'r hyblygrwydd i newid fel bo amgylchiadau'n mynnu. Yr ardaloedd a nodwyd yw:

1 - Y Farchnad
Y cynnig yw ailddiffinio ac ail-feddwl y Stryt Fawr a'i marchnadoedd cysylltiedig, fel 'calon' canol Wrecsam. Mae buddsoddiad sylweddol yn ei le eisoes i adfywio'r marchnadoedd, ond er gwaetha prosiectau gwella adeiladau, nid yw'r stryd ei hun yn cael ei defnyddio fel y dylai ac mae problemau o ran gyrru peryglus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd gwelliannau i'r parth cyhoeddus yn yr ardal hon yn helpu i reoli'r problemau hyn, ac ar y cyd â symud a hyrwyddo'r marchnadoedd awyr agored, bydd yn helpu i sefydlu'r ardal fel calon ddiwylliannol a dinesig boblogaidd y Ddinas. Bydd atgyfnerthu rôl y Stryt Fawr fel cyrchfan dydd o safon uwch ac annog y sector lletygarwch hefyd yn atgyfnerthu'r ardal fel cyrchfan ddeniadol gyda'r nos ac yn ystod y nos.

Mae safle'r Hippodrome yn gyfle i ddarparu lle i'r teulu gyda chyfleusterau chwarae a siopau dros dro, gan atgyfnerthu'r Farchnad ymhellach fel cyrchfan.

2 Stryt yr Arglwydd / Sgwâr y Frenhines
Y cyfle yw ailddiffinio rhan arwahanol o ganol y ddinas fel lleoliad ar gyfer adloniant diwylliannol a theuluol drwy ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwag amlwg a rhai nad oes llawer o ddefnydd ohonynt a gwella mannau cyhoeddus. Mae cyfleoedd allweddol yn cynnwys buddsoddi yn Chapter Court, y cyn adeiladau Woolworths a llyfrgell. Gellid defnyddio Sgwâr y Frenhines yn well ar gyfer digwyddiadau/lletygarwch/mannau eistedd ar gyfer gweithgareddau dydd a nos mwy amrywiol, o ansawdd gwell.

3 Porth Stryt y Rhaglaw
Y cyfle yw cryfhau pwysigrwydd yr ardal hon fel lle i brofi treftadaeth, diwylliant a'r celfyddydau. Mae hefyd yn bwynt cyrraedd pwysig yn cysylltu canol y ddinas â Phorth Wrecsam a Gorsaf Gyffredinol Wrecsam ac adfywio'r Cae Ras, canolfan drafnidiaeth a'r Brifysgol. Bydd y datblygiad newydd yn Amgueddfa Bêl-droed Cymru yn atgyfnerthu rôl treftadaeth ddiwylliannol yr ardal hon yn sylweddol. Bydd gwelliannau teithio llesol Coridor Ffordd yr Wyddgrug arfaethedig yn gwella mynediad a chysylltedd yn sylweddol i gerddwyr a beicwyr yn ogystal â gwella'r parth cyhoeddus.nnectivity for pedestrians and cyclists as well as enhancing the public realm

4 Y Werddon
Mae hwn yn gyfle mwy hirdymor ac yn un o'r nifer cyfyngedig o gyfleoedd ailddatblygu mawr posibl yng nghanol Wrecsam. Byddai'r ardal hon yn caniatáu gwaith ail-siapio trefol mawr ac awydd i ail-ganolbwyntio defnydd manwerthu yn fwy canolog a chreu ardal ddigon mawr ar gyfer datblygiad preswyl.

5 Bridge Street a Brook Street
Mae'r ardal hon yn gyfle posibl i ailddiffinio a chreu cymuned breswyl newydd o fewn cerdded i ganol y ddinas, yn cyd-fynd ag adnewyddu'r eiddo masnachol yn Brook Street.

6 Porth Wrecsam

Dyma fenter nodedig yn cael ei harwain gan y Cyngor mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam a Thrafnidiaeth Cymru. Nod y rhaglen adfywio yw manteisio ar ddatblygiad economaidd a chyfleoedd cymdeithasol a thrafnidiaeth yn ardal Gorsaf Reilffordd Gyffredinol Wrecsam, Y Cae Ras a pharseli o dir cyfagos sy'n eiddo i berchnogion preifat, gan greu datblygiad modern, defnydd cymysg, proffil uchel sy'n newid canfyddiadau.